Mae ffabrig canoloesol eglwys y Santes Fair yn goroesi yn nho'r gangell a rhywfaint o rwyllwaith ar y ffenestri. Mae darnau o wydr canoloesol yn ffenestr ogleddol y gangell. Canoloesol diweddar yw'r bedyddfaen a'r clawr: daeth ail ddysgl bedyddio, Normanaidd, o adeilad cynharach. Daeth sgrin y gangell o'r 15fed ganrif o rhywle arall. Dyddir conglfeini yn y talcen gorllewinol i 1634 ac 1664; 17eg a 18fed ganrif yw'r cofadeiliau a slabiau'r llawr. Dyluniwyd ffenestri cangell y dwyrain (1894) a'r de gan John Jennings ac mae'r organ gan adeiladwyr organ mwyaf blaenllaw Iwerddon, Telford & Telford. Ar wahân i hynny, gwaith dau feistr o ddiwedd y 19eg ganrif yw'r eglwys – John Dando Sedding (1838–91) a Heywood Sumner (1853–1940).

Yn 1982 datganwyd bod yr eglwys yn gyntaf yn anniogel, ac yna yn ddiangen. Cynigiodd yr esgobaeth ei llosgi i'r llawr! Symbylwyd y Friends i ddod i'w hachub gan gefnogwyr lleol gyda chefnogaeth y Victorian Society, a grant o 100% ar gyfer gwaith trwsio gan Cadw. Daeth i ni yn 1989. Bu rhaglen atgyweirio gynhwysfawr yn 2006-8, gyda chymorth y Pilgrim Trust. Mae'r eglwys yn adeilad rhestredig Gradd I.

## John Dando Sedding

Hyfforddodd Sedding dan G.E. Street, ynghyd â Philip Webb, William Morris a Norman Shaw. Yn 1873 cafodd ei gomisiynu i 'atgyweirio'r' eglwys: mewn gwirionedd mae'n waith ail-adeiladu. Greddf bensaernïol Sedding oedd i barchu'r gorffennol: cynnwys yn ofalus y gorau o'r hen gyda gwaith newydd ystyriol – megis y paladr a'r pen newydd ar gyfer croes ganoloesol y fynwent. Dyluniodd wrthgefn a rheiliau allor newydd; talcen y gloch, ac o bosib rhai cofadeiliau yn y fynwent. Cwblhawyd y cyfan erbyn 1876.

Aeth Sedding yn ei flaen i adeiladu llawer o eglwysi, gan gynnwys y gampwaith Celf a Chrefft, Holy Trinity, Sloane Street, Chelsea (1888–90).



Gwydr Canoloesol

## Y Benedicite

Mae tu mewn yr eglwys yn gyfres symffonig o baneli mur lliwgar yn darlunio'r Benedicite, mewn gwaith "sgraffito", proses lafurus o addurno a ail-ddyfeisiwyd gan Heywood Sumner, a gafodd ei argymell ar gyfer y gwaith gan Sedding. Treuliodd Sumner dri haf arno, 1888-90. Hwn yw'r unig enghraifft yng Nghymru: gwnaeth Sumner gynlluniau sgraffito eraill yn All Saints, Ennismore Gardens (1896–1903) a Sant Agatha, Portsmouth (1901).

Rhoddir pum haen o blaster i'r mur, bob un at wahanol drwch, a gadewir hwy i sychu dros nos. Yn y bore, gorchuddir y cyfan â phlaster newydd, sydd yna yn cael ei dorri i ffwrdd i wahanol ddyfnderau i ddangos y lliwiau a ddymunir. Gall un gwall olygu colli gwaith y dydd i gyd: mae'r plaster top yn rhy galed i weithio arno erbyn amser cinio.

Tirwedd lleol Sir Fynwy yw'r golygfeydd – mae 'O ye mountains and hills' yn cynnwys Mynydd Pen-y-Fâl, Blorens ac Ysgyryd Fawr yn y Fenni (wedi eu gosod yn gelfydd!).








## Rosamond Emily Lindsay

Y cleient ar gyfer yr holl waith oedd y Parch William Coussmaker Lindsay (1832–1912), o Eton a Choleg y Drindod, Dulyn – yn artistig a chyda cysylltiadau da: gor-ŵyr i Iarll Balcarres; brawd-yng-nghyfraith i ferch Arglwydd Tredegar (rhoddodd Tredegar fywoliaethau Llanfaches a Llanfair iddo); cyfyrder i sefydlydd y Grosvenor Gallery; a Chaplan i Ieirll Crawford.


Ei gofadail i'w wraig, Rosamond (1840–85), yw'r paneli.




Testun: Alec Hamilton. Ffotograffiaeth: Martin Crampin

## Eglwysi cyfagos sydd hefyd dan ofal y Friends

**Sant Ellyw, Llaneleu** Yn enwog am ei sgrin 14eg ganrif anferth gyda'r lloft wedi ei beintio'n waetgoch. Gerllaw, mae Llys Llaneleu yn dŷ canoloesol enigmatig yr oedd yr eglwys yn ei wasanaethu yn wreiddiol (eglwys ar agor).



**Sant Pedr, Llancillo** Eglwys anghysbell ar ochr Swydd Henffordd o'r ffin. Bedyddfaen o'r 13eg ganrif a phulpud gyda cherfiadau arabésg yn dyddio o 1632 ac 1745 (eglwys ar agor).







**Dewi Sant, Llangeview** Heb fod ymhell o Frynbuga. Y rhan fwyaf o'r 15fed ganrif, gyda sgrîn a lloft y grog. Seddi, pulpud a sedd yswain fawr yn waith aruchel o'r ddeunawfed ganrif. Anghysbell a heddychlon (eglwys ar agor).



**Eglwys Llanfihangel Rogiet** Saif rhwng dwy fferm. Canoloesol gan fwyaf, gydag ystlys ogleddol o 1904. Delwau canoloesol. Trigolyn mwyaf enwog y plwyf oedd Henry Jones, dyfeisiwr blawd codi! (eglwys ar agor).





### Pwy yw'r Friends?

Mae'r Friends yn caru eglwysi sydd heb eu caru. Hebom, byddent yn cael eu dymchwel, eu gwerthu fel tai, neu eu gadael yn angof. Ers 1957 rydym wedi ymgyrchu i eglwysi sydd ddim yn cael eu defnyddio i gael eu cadw, fel "pregethau mewn carreg".

Yng Nghymru, ariennir ein gwaith gan Cadw a'r Eglwys yng Nghymru. Ond yn Lloegr rydym yn dibynnu ar haelioni cyfranwyr ac aelodau.

### Beth ydyn ni'n ei wneud?

Yr ydym yn cadw'r eglwysi hyn er mwynhad y gymuned leol ac ymwelwyr. Rydym yn eu gwneud yn gadarn yn erbyn y gwynt a'r dŵr, yn ail osod toeau a ffenestri, yn trwsio peipiau glaw a gwaith carreg. Ac rydym yn gwneud yn siŵr eu bod yn agored, neu bod ceidwaid cyfeillgar lleol ar gael i gadw llygaid arnynt. Nid digyfaill mwyach!

Os gwelwch yn dda, fyddech yn fodlon ymuno a'n helpu?

Mae eu cynnal a'u cadw yn her anferth. Yr ydym yn dibynnu ar haelioni pobl fel chi...

### Ymuno

Ewch ar y we i ymweld â friendsoffriendlesschurches.org.uk. Wrth ymaelodi byddwch yn helpu i achub eglwysi. Yn ogystal, byddwch yn derbyn tri chylchlythyr hardd, yn llawn o wybodaeth am brosiectau cadwraeth, sgyrsiau, cyfarfodydd a llyfrau.

### Cyfrannu

Anfonwch siec, yn daladwy i 'Friends of Friendless Churches' at FoFC, 70 Cowcross Street, London EC1M 6EJ.

Neu ewch at y wefan.

Yr ydym yn cymryd gofal i gadw ein costau gweinyddiaeth yn isel iawn. Â cyfraniadau yn uniongyrchol tuag at achub ac atgyweirio eglwysi. Gallai cymynrodd wneud gwahaniaeth fwy fyth. Siaradwch â'r Cyfarwyddwr ar 020 7236 3934.


www.friendsoffriendlesschurches.org.uk

Dewch o hyd i ni ar y cyfryngau cymdeithasol

Rhif Elusen Gofrestredig : 1113097

FRIENDS OF FRIENDLESS CHURCHES



FRIENDS OF FRIENDLESS CHURCHES




# Eglwys y Santes Mair Llanfair Cilgedin

## cyflwyniad i'w hanes